

Recriwtio aelod o banel a chadeirydd yr NMC

Cwestiynau cyffredin (FAQs)

1. **A allaf wneud cais am y rôl hon os wyf wedi bod yn gyflogai i'r NMC o fewn y pum mlynedd diwethaf?**

Na. Os ydych wedi cael eich cyflogi gan yr NMC o fewn y pum mlynedd diwethaf nid ydych yn gymwys i wneud cais am y rôl hon.

2. **Rwyf wedi gwasanaethu ar Bwyllgor Ymarfer yr NMC o'r blaen ond daeth fy nghyfnod i ben ychydig flynyddoedd yn ôl. Ydw i'n gymwys i wneud cais?**

O dan ein Rheolau nid ydych yn gymwys i wneud cais am y rôl hon os ydych wedi gwasanaethu am ddau dymor yn flaenorol fel aelod o banel yr NMC neu gadeirydd panel.

Os mai dim ond am un tymor rydych wedi gwasanaethu fel Aelod o'r Panel gallwch wneud cais ond os cewch eich penodi, dim ond am un tymor o bedair blynedd y byddwch yn gymwys i eistedd. **Rhaid** i chi ei gwneud yn glir yn eich cais ac yn y cyfweiliad eich bod wedi eistedd fel aelod o banel yr NMC am un tymor a rhoi'r rheswm pam na chawsoch eich ailbenodi am ail dymor. Bydd hyn yn cael ei wirio fel rhan o'n proses diwydrwydd dyladwy.

3. **A allaf wasanaethu fel asesydd cyfreithiol ac aelod o banel yr NMC?**

Na, o dan ein deddfwriaeth ni all unigolyn fod yn aseswr cyfreithiol ac yn aelod o'r panel ar yr un pryd. Os cewch eich penodi fel un byddwch yn cael eich diarddel i wasanaethu fel y llall.

4. **Rwyf am wneud cais i fod yn aelod o'r panel cofrestredig ond nid wyf ar gofrestr yr NMC ar hyn o bryd. A ddylwn i wneud cais i gael fy aildderbyn i'r gofrestr nawr neu ar yr adeg y caf fy mhenodi?**

Dylech wneud cais nawr. Rydym yn obeithiol y gallai unrhyw gais aildderbyn fod yn gymharol gyflym cyn belled â'ch bod yn bodloni'r holl ofynion.

5. Rwyf wedi cofrestru gyda'r NMC. Os caf fy mhenodi a fydd rhaid i mi gadw fy nghofrestriad?

Os cewch eich penodi'n aelod cofrestredig o'r panel, rhaid i chi gynnal eich cofrestriad gyda'r NMC trwy gydol eich tymor. Os daw eich cofrestriad i ben, ni fyddwch yn cael trosglwyddo i fod yn aelod lleyg. Bydd eich tymor yn cael ei derfynu.

6. Roeddwn i'n nyrs gofrestredig, yn fydwraig neu'n gydymaith nyrsio o'r blaen ond mae fy nghofrestriad bellach wedi dod i ben.

A allaf wneud cais i fod yn aelod lleyg o'r panel? Os ydych erioed wedi bod ar gofrestr yr NMC o'r blaen a bod eich cofrestriad wedi dod i ben am unrhyw reswm (e.e. rydych bellach wedi ymddeol) nid ydych yn gymwys i wneud cais naill ai fel aelod lleyg neu aelod cofrestredig.

Rhaid i chi wneud cais i gael eich aildderbyn i gofrestr yr NMC ac yna gwneud cais am rôl fel aelod cofrestredig o'r panel.

7. A oes angen i mi fod wedi fy nghofrestru gyda'r NMC i wneud cais i fod yn aelod o'r panel?

Na, rydym yn croesawu ceisiadau gan aelodau lleyg i fod yn aelodau panel.

Sylwch: os ydych wedi dal cofrestriad gyda'r NMC yn flaenorol, neu'n gymwys i wneud hynny, ond nad ydych ar y gofrestr ar hyn o bryd, nid ydych yn gymwys i wneud cais naill ai fel aelod lleyg neu aelod cofrestredig. Rydych hefyd yn anghymwys i gael eich penodi'n aelod lleyg o'r panel oherwydd Rheol 2 (dehongli) o Reolau'r NMC (Pwyllgorau Ymarfer) (Cyfansoddiad) 2008: "Ystyr anghofrestredig yw person nad yw, ac nad yw erioed wedi bod yn nyrs gofrestredig, bydwraig neu gydymaith nyrsio ac nid oes ganddi gymhwyster a fyddai'n rhoi'r hawl iddynt wneud cais i gofrestru o dan y Gorchymyn"

8. Rwy'n gweithio i un o'r cyrff cynrychioliadol proffesiynol a/neu mewn maes cysylltiedig o reoleiddio meddygol, megis cynrychioli darparwyr gofal iechyd. Ydw i'n gymwys i wneud cais?

Nid yw'r posibilrwydd o wrthdaro buddiannau yn eich gwneud yn anghymwys i wneud cais. Ond pe byddech yn cael eich penodi byddai angen i chi ystyried a oedd gennych wrthdaro buddiannau fesul achos cyn i chi ymuno â phanel mewn gwrandawriad. Byddai angen i chi hefyd ddatgan eich buddiant yn y gwrandawriad fel y gallai'r partïon ystyried a oeddent yn gwrthwynebu i chi glywed eu hachos.

9. A allaf wneud cais os wyf yn aelod o weithgor strategol, ymgynghorol a/neu weithgor yr NMC?

Rydym yn eich cynghori i ddatgan hyn fel gwrthdaro posibl ar eich ffurflen gais.

10. Ydw i'n gymwys os ydw i'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig?

Ydych, ond rhaid bod gennych yr hawl i allu gweithio heb gyfyngiad yn y Deyrnas Unedig. Dylech nodi hefyd na fyddem yn talu am eich costau teithio a llety o'ch preswylfa i'r Deyrnas Unedig i eistedd fel aelod o'r panel ar wrandawriad.

11. A allaf wneud cais os wyf yn fethdalwr?

Mae ymgeiswyr sy'n fethdalwyr yn cael eu hanghymhwyso. Mae ymgeiswyr sy'n fethdalwyr a ryddhawyd yn gymwys oni bai eu bod yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn cyfyngiadau methdaliad interim o dan Atodlen 4A i Ddeddf Ansofedd 1986(9) neu Atodlen 2A i Orchymyn Ansofedd (Gogledd Iwerddon) 1989(10) (sy'n ymwneud â gorchmynion cyfyngu methdaliad ac ymgymeriadau).

12. Os ydw i wedi bod yn destun cwyn Addasrwydd i Ymarfer yr NMC, ydw i'n gymwys i wneud cais?

Ni fyddwch yn gymwys i wneud cais am rôl aelod cofrestredig o banel os:

- Nid oes gennych dystysgrif ymarfer ddilys y DU ar hyn o bryd;
- Rydych wedi'ch atal o'r gofrestr ar hyn o bryd;
- Rydych yn destun gorchymyn amodau ymarfer ar hyn o bryd;
- Rydych yn destun gorchymyn rhybuddiad ar hyn o bryd;
- Rydych erioed wedi cael eich dileu o'r gofrestr.

Ni fyddwch yn gymwys i gael eich penodi'n aelod cofrestredig o banel os ydych, neu os oeddech ar unrhyw adeg, yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos yn ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan yr NMC a bod yr NMC o'r farn y byddai eich penodiad yn debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y broses o reoleiddio nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.

13. Ydw i'n gymwys os oes gan berthynas euogfarn neu ddedfryd ohiriedig?

Ydych. Nid yw'r rheolau gwahardd yn ymestyn i euogfarnau perthnasau.

14. Ydw i'n gymwys os ydw i wedi cael euogfarn am drosedd o'r blaen?

Bydd angen mwy o wybodaeth arnom am eich euogfarn cyn y gallwn ddweud a ydych yn gymwys. Os oedd eich euogfarn yn y DU, bydd yn dibynnu a yw'r euogfarn wedi dar fod at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Os oedd eich euogfarn y tu allan i'r DU, yna bydd angen i'n Bwrdd Penodiadau benderfynu, oherwydd eich euogfarn, a fyddai eich aelodaeth o bwyllgor ymarfer yn tansellio hyder y cyhoedd yn y broses o reoleiddio nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio.

15. Beth yw'r ymrwymiad amser blynyddol ar gyfer y rhai sy'n llwyddiannus?

Bydd disgwyl i Aelodau'r Panel ac Aseswyr Cyfreithiol eistedd am 15 – 50 diwrnod y flwyddyn.

16. Pe byddwn i'n cael fy mhenodi, pa mor bell ymlaen llaw y byddaf yn cael y gwaith papur ar gyfer gwrandawriad?

Ein nod yw rhoi manylion eu gwrandawiadau i'n haelodau bythefnos ymlaen llaw ac anfon y papurau atynt ddim hwyrach nag wythnos cyn i'r gwrandawriad ddechrau.

17. A allaf wneud cais os wyf yn fyfyrwr nyrsio?

Fel myfyrwr nyrsio gallech wneud cais i fod yn aelod llewg o'r panel. Ond unwaith i chi gwblhau'ch hyfforddiant a chael cymhwyster, byddech yn cael eich dileu fel panelydd gan y Cyngor oherwydd na allwch fod yn aelod llewg a meddu ar gymhwyster nyrsio, bydwreigiaeth neu gydymaith nyrsio. Rydym yn credu y byddai'n rhwystredig iawn i rywun fynd drwy'r broses ddethol drylwyr hon dim ond i golli eu hapwyntiad o ganlyniad i gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus. Felly er y gallwch wneud cais rydym yn awgrymu'n gryf eich bod yn aros i wneud cais mewn ymgyrch yn y dyfodol ar ôl i chi gael eich cofrestrriad.

18. Faint o deithio sydd ei angen?

Rydym yn cynnal gwrandawiadau yn gorfforol yn bersonol ac yn rhithwir trwy MS Teams a bydd disgwyl i chi fod ar gael ar gyfer y ddau fath o wrandawriad. Mae angen teithio o'r cartref i'r gwrandawriad a lleoliadau hyfforddi. Mae cyfran uwch o wrandawiadau yn Llundain, fodd bynnag rydym yn rheolydd pedair gwlad a bydd disgwyl i chi deithio i wrandawiadau ar draws y DU. Os oes angen i chi deithio - telir costau teithio yn ogystal â chostau llety gwesty, os bydd angen aros dros nos.

19. A yw'r rôl yn cael ei thalu?

Ydy. Mae aelodau'r Panel yn cael £320 y diwrnod a Chadeiryddion Paneli £367 y dydd.

20. Pa ddiwydrwydd dyladwy a wneir ar ymgeiswyr?

Bydd pob ymgeisydd a wahoddir am gyfweiliad gyda'r NMC yn cael y diwydrwydd dyladwy canlynol:

- Cymerir dau eirda – gofynnir i chi roi manylion dau ganolwr sy'n eich adnabod yn broffesiynol pan ydych yn gwneud cais;
- Diwydrwydd dyladwy ar-lein. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o unrhyw gyfryngau cymdeithasol, adroddiadau yn y wasg genedlaethol a gwiriadau o gronfeydd data cyhoeddus megis Tŷ'r Cwmnïau, y Gwasanaeth Ansoffedd a'r Comisiwn Elusennau.
- Gwirio systemau'r NMC i sicrhau nad ydych wedi eistedd fel Aelod o Banel yr NMC am ddau dymor o'r blaen.
- Gwirio systemau'r NMC i sicrhau nad yw ymgeiswyr cofrestredig yn destun unrhyw ymchwiliadau Addasrwydd i Ymarfer ar hyn o bryd neu nad oes ganddynt unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.
- Bydd eich cymhwysedd hefyd yn cael ei ail-gadarnhau yn y cyfweiliad ac ni fydd unrhyw ymgeisydd y canfyddir ei fod yn anghymwys yn gallu aros yn y broses.
Gofynnir cyfres o gwestiynau cymhwysedd i chi pan ydych yn gwneud cais - darllenwch y rhain yn ofalus iawn a rhowch atebion gonest.

21. Sut y gallaf gyflwyno'r achos cryfaf posibl dros fy ymgeisyddiaeth?

Rydym yn deall na fydd pawb yn gyfarwydd â'r ffurflen gais rydym yn ei defnyddio. Nid yw'r ffurflen wedi'i bwriadu i'ch twyllo; mae pob cwestiwn yn gysylltiedig â'r fframwaith ymddygiad a gwerthoedd felly maent wedi'u cynllunio i roi'r cyfle gorau i chi gyflwyno achos cryf. Yn ein profiad ni, y pethau allweddol i'w hystyried yw:

1. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y terfyn geiriau. Ni fydd unrhyw eiriau y tu hwnt i'r terfyn penodedig yn cael eu hasesu.
2. Darllenwch y cwestiwn yn ofalus a sicrhewch eich bod yn ei ateb mor agos â phosibl.
3. Ymglyfarwyddwch â'r fframwaith ymddygiad a gwerthoedd cyn dechrau'r cais. Dyma'r cymwyseddau y cewch eich asesu yn eu hôl.
4. Rhowch enghraifft benodol o'ch gyrfa broffesiynol sy'n dangos orau'r cymhwysedd dan sylw yn eich barn chi. Byddwch mor benodol â phosibl.
5. Byddwch yn glir ynghylch y cyd-destun yr oeddech yn gweithredu ynddo. Cofiwch: efallai na fydd y darlennydd yn gyfarwydd â'ch cyd-destun proffesiynol.
6. Cynigiwch naratif clir sy'n disgrifio'r hyn a wnaethoch. Mae'n bwysig eich bod chi'n dod â'ch cyfraniad personol gweithredol allan yn yr enghraifft rydych chi'n ei disgrifio.
7. Sicrhewch fod canlyniad clir, mesuradwy i'r enghraifft a ddisgrifiwch. Beth, yn y pen draw, oeddech chi'n gallu ei gyflawni a thrwy ba fesur y gwyddoch ei fod yn llwyddiannus?